

Dyddiad: 27 Gorffennaf 2021

Pwnc: Ymgynghoriad - Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Annwyl gyfaill,

### **Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

Sefydlwyd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd ar 23 Mehefin 2021, gyda'r cylch gorchwyl o "archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif trwy graffu ar ei materion o ran gwariant, gweinyddiaeth a pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol, cymunedau, a thai". Er eglurder, mae cymunedau'n cyfeirio at y gymuned adeiledig. Bydd materion sy'n ymwneud a chymunedau ehangach (er enghraifft, cymunedau o bobl) yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn bennaf.

### **Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Er mwyn helpu i lywio ei gynllunio strategol a chynllunio'i flaenraglen waith, mae'r Pwyllgor am glywed eich syniadau chi ynghylch beth y dylai'r Pwyllgor ei flaenoriaethau yn y Chweched Senedd. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn awyddus i wybod beth, yn eich barn chi, yw'r prif feysydd blaenoriaeth y dylid rhoi sylw iddynt yn y 12 mis nesaf, gan gynnwys effaith Covid a'r adferiad yn dilyn y pandemig.

### **Cyflwyno tystiolaeth**

Os ydych am ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor, e-bostiwch gopi electronig o'ch sylwadau i: [SeneddTai@senedd.cymru](mailto:SeneddTai@senedd.cymru).

Mae gan y Senedd ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â [Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd](#), mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrefodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaeth statudol.

Gweler y [canllawiau](#) i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau a'r [Hysbysiad Preifatrwydd](#) sy'n ymwneud â chyfrannu at waith bwyllgorau'r Senedd.

### **Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth**


Byddwn fel arfer yn cyhoeddi gohebiaeth neu dystiolaeth ysgrifenedig ar ein gwefan. Os ydych wedi ymateb yn bersonol, bydd eich enw'n cael ei gyhoeddi ynghyd â'ch cyfraniad, oni bai eich bod wedi gofyn i'ch cyfraniad fod yn ddiennw. Os ydych wedi ymateb mewn rhinwedd broffesiynol, bydd y fersiwn gyhoeddedig yn cynnwys eich enw, teitl/rôl eich swydd os yw'n berthnasol, ac enw eich sefydliad.

Cyn derbyn cyfraniadau gan unigolion o dan 13 oed, mae arnom angen awdurdodiad gan riant neu warcheidwad y person ifanc. Gellir darparu hyn ar ffurf neges e-bost gan riant neu warcheidwad y person ifanc. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau unigolion o dan 18 oed ochr yn ochr â'u cyfraniadau.

Dylai ymatebion gyrraedd erbyn **dydd Gwener 17 Medi 2021**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Catherine Hunt, Ail Glerc, ar 0300 200 6565.

Yn gywir,



John Griffiths AS

Cadeirydd